


# Sut rydym ni'n newid gofal canser 2025 - 2030

MACMILLAN
CANCER SUPPORT

# Gair gan Gemma Peters, ein Prif Weithredwr



Ym Macmillan, rydyn ni'n gwneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pobl sy'n byw gyda chanser. Pan ddechreuon ni yn 1911, roedd hynny'n golygu beicio i ymweld â phobl gartref, newid eu dresin a dosbarthu glo i'w cadw'n gynnes. Wrth i ofal iechyd esblygu, fe wnaethon ni esblygu hefyd, gan greu rolau fel y Nyrsys Canser Arbenigol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal personol maen nhw ei angen. Ers dros ganrif bellach, rydym ni wedi bod yn arloesi i wella bywydau pobl â chanser ledled y DU.

Heddiw, mae gofal canser yn wynebu rhai o'r heriau mwyaf rydyn ni wedi'u gweld. Ar hyn o bryd, mae bron i 3.5 miliwn o bobl yn byw gyda chanser ar draws y DU. Wrth i'r nifer hwn godi, bydd mwy a mwy o bobl yn ei chael hi'n anodd cyrchu'r gofal maen nhw ei angen oherwydd pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw. Er bod llawer wedi newid ers dyddiau cynnar Macmillan, un peth na fydd byth yn newid yw ein hymrwymiad i fynnu gwell gofal i bawb.

Dyna pam rydym ni wedi datblygu'r strategaeth sefydliadol bum mlynedd newydd feiddgar hon. Ynghyd â miloedd o bobl sy'n byw gyda chanser, gweithwyr iechyd proffesiynol, partneriaid, cydweithwyr, gwirfoddolwyr ac arbenigwyr eraill, rydym ni wedi nodi pedwar o'r heriau mwyaf a'r cyfleoedd mewn gofal canser. Trwy weithio'n wahanol a chanolbwyntio ar nodau llai ond doethach, byddwn yn gwneud hyd yn oed mwy o wahaniaeth. Gallwch ddarllen mwy am sut y byddwn ni'n gwneud hyn ar y tudalennau nesaf.

Mae'n bosib gwneud hyn yn well. Rydym ni'n gwybod bod gennym ni her sylweddol o'n blaenau ac mae ein cynlluniau'n uchelgeisiol, ond mae'r cyfle yn enfawr. Mae'n bryd i ni weithio gyda'n gilydd i drawsnewid gofal canser am byth.

Dyna pam rydyn ni wedi cynnwys miloedd o bobl i helpu i greu ein strategaeth 2025–2030. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n byw gyda chanser. Mae pob math o bobl wedi rhannu eu mewnbwn - pobl sy'n ein hadnabod a'n caru, pobl nad ydyn nhw erioed wedi clywed amdanom ni, a hyd yn oed pobl sydd wedi cael eu siomi gennym.



**Gemma Peters, Prif Weithredwr**
**Cymorth Canser Macmillan Canser**

# Strategaeth newydd wedi'i llunio gan y bobl a'r cymunedau rydym ni'n eu helpu

Ers dros 100 mlynedd, rydym wedi chwyldroi gofal canser trwy newid y ffordd mae pobl yn cael triniaeth, a gwella eu bywydau mewn ffyrdd mawr a bach. Ers i ni ddechrau - hyd yn oed cyn i'r GIG gael ei sefydlu - mae llawer wedi newid er gwell. Bryd hynny, roedd canser bron bob amser yn ddedfryd marwolaeth. Ond diolch i ymchwil, a gwaith caled y GIG, y gweithwyr proffesiynol rydym ni'n gweithio gyda nhw a'n tîm ein hunain - yn ogystal â haelioni ein cefnogwyr ac elusennau eraill - nid dyma'r achos bellach. Mewn sawl ffordd, mae gofal canser y gorau y mae wedi bod erioed oherwydd y gwaith tîm diflino hwn. Ond mae ffordd bell i fynd.

Dyna pam rydyn ni wedi cynnwys miloedd o bobl i helpu i greu ein strategaeth 2025–2030. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n byw gyda chanser. Mae pob math o bobl wedi rhannu eu mewnbwn - pobl sy'n ein hadnabod a'n caru, pobl nad ydyn nhw erioed wedi clywed amdanom ni, a hyd yn oed pobl sydd wedi cael eu siomi gennym ni. Pawb gyda'r nod o greu Macmillan sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r hyn rydym ni wedi'i ddysgu a'i glywed wedi llywio ein hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a sut rydym ni'n bwriadu addasu i'r byd newidiol o'n cwmpas.

**Fe wnaethom ni glywed:**

- Mae amseroedd aros yn rhy hir.
- Mae'r gofal canser rydych chi'n ei gael yn teimlo fel loteri cod post.
- Mae diffyg gwybodaeth am sawl cyflwr.
- Nid yw pobl yn teimlo eu bod nhw'n cael eu clywed.
- Nid oes digon o staff na chefnogaeth emosiynol.

Mae'r adborth hwn o filoedd o sgyrsiau, arolygon, cyfweliadau, a'r ymchwil a'r data diweddaraf wedi llywio ein hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae llawer i'w wneud, ond rydym ni wedi trawsnewid gofal canser o'r blaen. Gallwn ei wneud eto.

**Gyda'n gilydd, byddwn yn helpu mwy o bobl â chanser i gael y gofal gorau sydd gan y DU i'w gynnig, pwy bynnag a ble bynnag maen nhw.**




Cyfranogwyr yn mwynhau Walk to Support yn Birmingham

# Mae eich barn yn sbarduno ein newid



"Mae angen i bobl siarad mwy a rhannu gwybodaeth yn ehangach. Ni all un sefydliad wneud popeth ar ei ben ei hun. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol."

- Derbyniodd Mary gefnogaeth gan Improving Cancer Journey Service yn Glasgow.

"Roeddwn i'n teimlo fel petai mai fi yw'r unig berson Byddar gyda chanser. Doedd dim cefnogaeth, roedd rhaid i mi gadw popeth i fi fy hun. Roedd rhaid i mi gau fy hun lawr gan mai dyma'r unig ffordd y gallwn i fynd drwyddo, mae cael rywun i siarad â nhw nawr yn anhygoel."

- Heidi, rhan o Brosiect Cymorth Canser Byddar Macmillan.





"Fe wnaeth cyd-afiachedd fy nghalon a'm diagnosis canser ar ben cyfathrebu gwael achosi straen a dryswch diddiwedd i mi. Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi fy ngwthio i un ochr yn llwyr pan na allai fy llawdriniaeth fynd yn ei blaen. Nid yw'n ymddangos bod un person yn gyrru gofal y claf mewn achosion cymhleth fel fy un i sy'n cynnwys mwy nag un tîm."

- Will, yn rhannu ei brofiad o gael canser a chyflwr ar y galon

"Cynnwys pobl sydd â phrofiadau go iawn o ganser, a helpu sefydliadau ar lawr gwlad i deimlo eu bod nhw'n cael eu gweld a'u clywed yw'r unig ffordd i gyrraedd pobl a chael gofal canser yn iawn i gymunedau. Rhaid i'r dull hwn fod yn rhan annatod o waith Macmillan."

- Samina, Cynghorydd Profiad Byw ar gyfer strategaeth newydd Macmillan



# Ein gweledigaeth

**Rydym ni'n gwneud beth bynnag sydd ei angen i sicrhau'r gefnogaeth orau i bawb heddiw a sbarduno chwyldro mewn gofal canser ar gyfer y dyfodol.**




Heicio arfordirol yn Heic a Hanner

# Byddwn yn helpu mwy o bobl â chanser i gael y gofal gorau sydd gan y DU i'w gynnig

**Dros y blynyddoedd, mae'r galw am ein gwasanaethau wedi cynyddu*. Ond nid yw'r arian sydd ei angen arnom i'w rhedeg yn cynyddu ar yr un cyflymder. Mae'n rhaid i ni frwydro'n galetach i wneud i bob punt gyfrif.**

Mae pob un person - heddiw ac yn y dyfodol - yn haeddu'r gofal canser gorau i gefnogi eu hanghenion unigryw. Ond os na fyddwn ni'n canolbwyntio ein hymdrechion lle mae eu hangen fwyaf, byddwn yn cyrraedd llai o bobl, a bydd ein cefnogaeth yn cael llai o effaith ar eu bywydau. Mae gofal canser gwell yn bosibl, ond dim ond os byddwn ni'n gweithio'n wahanol.

O 2025 ymlaen, rydym ni'n canolbwyntio ein hymdrechion lle gallwn gael yr effaith fwyaf. Fel bob amser, byddwn yn parhau i wrando, rhoi gwybodaeth, cynnig cyngor a chymorth pryd bynnag a ble bynnag mae ein hangen. Ond mae ein strategaeth sefydliadol newydd yn amlinellu pedwar maes hanfodol y byddwn ni'n canolbwyntio arnynt i wneud gwahaniaeth go iawn.

*Yn 2018, fe wnaethom gefnogi tua 102,000 o bobl drwy ein Llinell Gymorth. Yn 2023, fe wnaethom gefnogi tua 110,000 o bobl trwy ein Llinell Gymorth. Ffynhonnell: Cymorth Canser Macmillan. Adroddiadau blynyddol a chyfrifon. Cyrchwyd Hydref 2024



Mae Pineapple Club yn cynnal cystadleuaeth dominos are gyfar aelodau'r clwb

# Ffocws gwirioneddol ar gyfer newid go iawn

## Ein hamcanion

Roedd ein proses strategaeth yn llawn syniadau. Mae cymaint o ddewisiadau y gallwn ni eu gwneud, ond allwn ni ddim gwneud y cyfan. Rydym ni wedi gofyn cwestiynau pwysig i ni'n hunain: Pwy sydd ein hangen fwyaf? Lle mae pobl yn ei chael hi'n anodd mewn gwirionedd? Beth yw'r rhwystrau mwyaf i ofal y mae angen i ni eu goresgyn? Fe wnaeth ateb y rhain ein helpu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen arnom.

**Ehangu ein rhwydwaith o weithwyr gofal canser proffesiynol**
Rydym yn tyfu ein cymuned o nyrsys, meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n rhoi'r gofal canser gorau i'w cleifion.

**Cefnogaeth i bawb**
Byddwn yn dal i fod yno i bawb gyda'n cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor. Mae hyn yn cynnwys ein cynghorwyr ar ein Llinell Gymorth sydd ond yn e-bost, neges neu alwad ffôn i ffwrdd. Gall pobl â chanser hefyd gael mynediad i'n cymuned ar-lein gefnogol bob awr o'r dydd.

**Gwneud gofal canser yn deg**
Ar hyn o bryd, mae gormod o bobl yn cael eu taro'n galetach gan eu diagnosis canser oherwydd pwy ydyn nhw. Mae hyn yn annerbyniol - mae'n rhaid i ni newid hyn, fel nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

**Gofal gwell ym mhob man**
Mae gormod o bobl nad ydynt yn cael y driniaeth na'r cymorth maen nhw eu hangen oherwydd nad yw ar gael lle maen nhw'n byw, neu dim ond ar gyfer rhai mathau o ganser y mae ar gael. Mae'n rhaid i ni weithio gydag eraill i sicrhau bod pawb ledled y DU yn gallu cael yr un lefel o ofal.



# Rydyn ni'n mynd i weithio ar unwaith

## Sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion

Mae ein hamcanion yn canolbwyntio ar ofal canser ar hyn o bryd, a dechrau chwyldro ar gyfer y dyfodol. Er mwyn cyrraedd ein nodau uchelgeisiol, dyma sut rydym yn gweithredu heddiw ac yn y tymor hir.

### Cyrraedd pawb heddiw

**Cefnogaeth i bawb**
Byddwn yn dal i fod yno i bawb gyda'n cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor. Mae hyn yn cynnwys ein cynghorwyr ar ein Llinell Gymorth sydd ond yn e-bost, neges neu alwad ffôn i ffwrdd. Gall pobl â chanser hefyd gael mynediad i'n cymuned ar-lein gefnogol bob awr o'r dydd.

**Ehangu ein rhwydwaith o weithwyr gofal canser proffesiynol**
Rydym yn tyfu ein cymuned o nyrsys, meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n rhoi'r gofal canser gorau i'w cleifion.








### Trawsnewid gofal canser y dyfodol

**Rhoi pobl â chanser wrth wraidd popeth rydym ni'n ei wneud**
Byddwn yn defnyddio'r hyn yr ydym ni'n ei glywed gan bobl ledled y DU i ddeall yn well sut mae canser yn effeithio ar eu bywydau mewn gwahanol ffyrdd, fel y gallwn ni - ac eraill - eu cefnogi'n well. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl sydd â'r profiadau gwaethaf o ganser i ddod o hyd i atebion sy'n gweddu orau iddynt.

**Mwy o ofal cydgysylltiedig personol sy'n deg**
Dylai pawb ym mhobman gael yr un safonau gofal uchel ond ar hyn o bryd, nid yw hyn yn wir. Byddwn yn defnyddio ymchwil a data i ddeall gwahanol brofiadau a byddwn yn gweithio gydag eraill i ysgogi newidiadau i'r system iechyd, trawsnewid gofal canser fel ei fod yn gydgysylltiedig ac yn deg ar draws y pedair gwlad.

**Gyda'n gilydd yn gweithio'n well**
Allwn ni ddim gwneud hyn ar ein pennau ein hunain. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a'r sector elusennol, i arloesi a phrofi'r hyn sy'n gweithio i wella gofal canser. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgwn i helpu i drawsnewid gofal i bobl â chanser ledled y DU.




# Sut y gallwch chi wneud gwahaniaeth

## Cymryd rhan yn ein hamcanion

**Mae cymaint o ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan.**



**Codi arian sy'n newid bywydau...**
P'un a ydych chi'n rhedwr, yn bobwr, neu eisiau gwneud rhywbeth hollol wahanol, gallwch ddod o hyd i ddigwyddiad sy'n gweithio i chi.



**...Neu godi eich llais!**
Rydym ni angen i bobl godi llais ac eirioli dros y gofal gorau i bobl sy'n byw gyda chanser yn y DU.



**Rhoi eich amser...**
Munudau neu fisoedd, oriau neu ddyddiau. Fel gwirfoddolwr, gallwch ein helpu i wella profiad pobl o ganser.

**Cyfrannwch nawr a'n helpu i gyflawni ein nodau yn gyflymach.** Mae pob punt a roddwch yn ein helpu i wella ein gwasanaethau heddiw. Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi roi - dros y ffôn, drwy neges destun, siec neu drosglwyddiad banc. Gallwch hyd yn oed adael rhodd yn eich ewyllys. Dewch o hyd i'r opsiwn gorau i chi yn **macmillan.org.uk/donate.**

Cymorth Canser Macmillan, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. MAC20051_Welsh